Antur Teifi
Gwasanaethau Busnes
Business Services

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1

Gwasanaeth Cefnogi Cynhyrchwyr Ceredigion II

Antur Teifi
Parc Busnes Antur Teifi
Aberarad
Castellnewydd Emlyn
Gorllewin Cymru
Ffôn: 01239 710238
SA38 9DB
E-bost
asadler@anturteifi.org.uk

Rhifyn 5

Gaeaf 2006

Cyfle i Chi Farchnata Am Ddim yn 'Cwrdd â Chynhyrchwyr Bwyd Ceredigion'

Rydym wrthi'n trefnu diwrnod 'Cwrdd â Chynhyrchwyr Bwyd Ceredigion' i godi ymwybyddiaeth o'r bwydydd a'r diodydd sy'n cael eu cynhyrchu yn y sir. Mae'n bleser gennym gynnig cyfle i chi gymryd rhan yn yr achlysur *am ddim* gyda'r nod o ehangu'ch marchnad.

Gwahoddir gwestai, busnesau gwely a brecwast a llety hunanarlwyo, tai bwyta a chaffis yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin, Powys a Sir Benfro i ddod i'r achlysur i brofi'r Bwydydd a'r Diodydd ardderchog a gynhyrchir yng Ngheredigion. Trefnwyd i gogydd o Gwmni Hyfforddiant Cambrian ddod i roi arddangosfa goginio yn ystod y dydd gan ddefnyddio'ch cynnyrch chi yn ei ryseitiau. Cynhelir y digwyddiad yng Ngwesty Tyglyn Aeron, Aberaeron ar ddydd Mawrth 23ain o Ionawr rhwng 11.00 a 3.00 o'r gloch.

Os hoffech fanteisio ar y cyfle hwn – sydd *am ddim* – i godi ymwybyddiaeth o'ch cynnyrch yn y sector croesogarwch ac yr hoffech nodi'ch diddordeb mewn arddangos ar y diwrnod, cysylltwch â Rhiannon neu Anna ar 01239 710 238 neu e-bostiwch rthomas@anturteifi.org.uk.

Bwyd lleol – rhan hanfodol o brofiad ymwelwyr

Yn dilyn cyrsiau 'r gwanwyn, a oedd yn llwyddiant ysgubol, daeth Gwasanaeth Cefnogi Cynhyrchwyr Ceredigion II, Medrwn a Chynllun Ansawdd Twristiaeth Ceredigion ynghyd unwaith eto i drefnu cyfres o gyrsiau yn canolbwyntio ar fwyd a choginio. Nod y rhaglen gyffrous hon oedd ychwanegu at y ddarpariaeth o fwydydd da, wedi 'u cynhyrchu a 'u paratoi yn lleol, sydd ar gael yng Ngheredigion. Cynhaliwyd pum sesiwn ymarferol yn ystod yr hydref yng Ngholeg Ceredigion, Aberteifi o dan arweiniad arbenigol darlithwyr arlwyo 'r coleg ac fe 'u cynigiwyd am ddim i fusnesau twristiaeth sy' n paratoi bwyd ac yn cynnig gwasanaethau bwyd.

Roedd y sesiynau 'n cynnwys pynciau fel arlwyo ar gyfer achlysuron arbennig ac ar gyfer pobl â gofynion deietegol arbennig ac roeddent yn cynnwys tipyn o waith ar ymwybyddiaeth o hylendid bwyd a gwasanaethu cwsmeriaid.

Cafwyd ymateb ardderchog i' r sesiynau, 'Roedd y profiad cyfan—gwaith coginio ymarferol gan ddefnyddio cynnyrch lleol yn fuddiol iawn '. Yn dilyn galw gan fusnesau, mae cynlluniau ar y gweill i gynnal rhagor o gyrsiau. Os oes rhyw bwnc arbennig yr hoffech chi iddo gael ei gynnwys, neu os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth, gallwch gysylltu â: Helen Jones, Medrwn – 07980 267 677, Roz Wornell, CTQI – 01970 621615 neu Rhiannon Thomas, CPSSII ar 01239 710238.

Medrwn

CATC CTQI

Croeso i rifyn y Gaeaf o 'n cylchlythyr ni. Yn ystod yr Hydref, rydyn ni wedi bod yn brysur yn cydweithio â 'r sector crefftau i ganfod ffyrdd y gallan nhw ddatblygu eu busnes.

Fe wnaethon ni drefnu cyfres o gyrsiau hyfforddi, ar y cyd â Medrwn, i roi cyfle i gynhyrchwyr ddatblygu eu potensial i werthu i 'r diwydiant croeso. Gwnaed hyn trwy seminar gyda 'r nos pryd y cafwyd sgwrs gan Ali Thomas, a fu 'n grefftwraig lwyddiannus ac yn Wraig Fusnes y Flwyddyn. Soniodd am ddatblygu cynnyrch, yn cynnwys brandio, pecynnu ac anelu at y gynulleidfa gywir. Yn ystod y cwrs, trafodwyd materion fel prisio 'ch cynnyrch yn iawn, archebion gan fusnesau, dosbarthu a mynd i 'r sioeau masnach gorau.

Yna, cafwyd dau ddiwrnod hyfforddi yn Llanerchaeron i drafod 'Gwerthu ' ac ' Arddangos a Marchnata '.

Ar ran tîm Cefnogi Cynhyrchwyr Ceredigion, hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i 'n holl ddarllenwyr.

CYHOEDDI ENILLWYR 'OSCARS' BWYD A DIOD CYMRU

Cyflwynwyd gwobrau i 31 o gwmnïau bwyd a diod – hufen y diwydiant yng Nghymru – neithiwr (nos Iau 23 Tachwedd) yn seremoni 'Oscars' y diwydiant – Gwobrau Gwir Flas Bwyd a Diod Cymru 2006/07.

Ymgeisiodd dros 200 o gwmnïau eleni yn y gystadleuaeth sy'n cydnabod safon uchel, dyfeisgarwch a rhagoriaeth diwydiant bwyd a diod Cymru, yn y gobaith o ennill un o'r prif wobrau. Cynhaliwyd y gystadleuaeth, a reolir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, am y bumed flwyddyn eleni a chafwyd mwy o geisiadau nag erioed, sy'n arwydd o bwysigrwydd yr ornest.

Meddai'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Carwyn Jones AC "Mae'r diwydiant bwyd a diod yn rhan hanfodol o economi Cymru ac mae ganddo lawer i ymfalchïo ynddo – mae Gwobrau'r Gwir Flas yn cydnabod hyn. Cafodd cwmnïau bach a mawr o bob rhan o Gymru eu cydnabod yma heno a hoffwn longyfarch yr enillwyr ar eu llwyddiant. Hoffwn ddiolch hefyd i'n holl noddwyr a chefnogwyr am eu cyfraniad nhw."

Bob blwyddyn, dewisir Llysgennad i fod yn wyneb i ddiwydiant bwyd a diod Cymru. Cyhoeddwyd neithiwr mai ffermwr ac entrepreneur o'r Gorllewin, Brian Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr cwmni Bwydydd Castell Howell fydd Llysgennad y Gwir Flas 2006/07.

Trwy ei waith, yn canfod cynhyrchion o Gymru ar gyfer y diwydiant gwasanaethau bwyd, gwelodd Brian gynnydd yn y galw am fwydydd o Gymru. Gwelodd hefyd gymaint y gellir ei gyflawni trwy greu partneriaethau. "Trwy gydweithio, gall cynhyrchwyr Cymru ddod yn gryfach ac ennill cyfran fwy mewn marchnad gystadleuol," meddai.

"Cafodd Gwobrau'r Gwir Flas ddylanwad mawr ar y sector ac ar ddelwedd cwmnïau bwyd a diod o Gymru ymhlith cynulleidfa eang. Maen nhw'n rhoi cyfle i fusnesau bach a mawr i ddisgleirio ac i ddangos bod diwydiant bwyd bywiog a llewyrchus yng Nghymru."

Hoffai GOGOLL longyfarch yr holl gynhyrchwyr a enwebwyd ar gyfer Gwobrau'r Gwir Flas ac yn enwedig y cynhyrchwyr o Geredigion a enillodd wobrau:-

⇒ **Cynnyrch Organig Gorau'r Gwir Flas (Cig): Harmony Herd, AUR**

⇒ **Gwneuthurwr Bach y Gwir Flas (Arall): Penlon Cottage Brewery, EFYDD**

⇒ **Gwneuthurwr Bach y Gwir Flas (Cig): Rob Rattray y Cigydd, AUR**

⇒ **Gwneuthurwr Mawr y Gwir Flas: Rachel's Organic, ARIAN**

⇒ **Manwerthwr y Gwir Flas ENILLYDD: Siop Fferm Llwynhelyg**

Caiff y gwobrau eu noddi a'u cefnogi gan ITV Cymru, SPAR (Capper & Co Ltd), Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales, The Grocer, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (UWIC), Envirowise, Undeb Amaethwyr Cymru, NFU Cymru, y Ganolfan Technoleg Bwyd – Coleg Menai a Gwir Farchnata.

Manion

Mae 'r Cambrian News yn cynnig prisiau arbennig i 'n darllenwyr am hysbysebu yn eu papur twristiaeth, The Holidaymaker. Mae 'r manylion ar y daflen amgaeedig neu gallwch ffonio Debbie ar 01970 611611.

Mae Swyddogion Safonau Masnach ym Mhowys wedi dweud wrth gigyddion y bydd raid iddynt newid enw eu selsig "Welsh Dragon" . Roedd arnynt ofn fod yr enw 'n camarwain pobl beth oedd yn y selsig—o borc y maen nhw wedi 'u gwneud, nid cig draig. (Diolch i raglen Farming Today am ganiatâd i ddefnyddio 'r stori.)

Cynhyrchwyr o Geredigion ymhlith enillwyr Gwobrau Busnes Ceredigion 2006

Cynhaliwyd y noson wobrwyo yng ngwesty TyGlyn Aeron, ar 7fed Tachwedd. Ymhlith yr enillwyr roedd, Wyau Maes Birchgrove a enillodd y wobr gyntaf yn y dosbarth Cynhyrchwyr Bwyd a Chwmni Dŵr Llanllyr a enillodd y Wobr Allforio. Rhai o'r cwmnïau eraill a gyrhaeddodd y rownd derfynol oedd busnes cigydd Owain's Butchery, Toloja Orchards a The Welsh Mustard Company.

Ultracomida enillodd wobr Busnes y Flwyddyn. Maen nhw'n arbenigo mewn gwerthu cigoedd a chawsiau o Gymru, Sbaen a Ffrainc, trwy eu stondin delicatesen ym marchnad Aberteifi, eu siop yn Aberystwyth a'u bwyty yn Arberth, a enillodd wobr aur yng Ngwobrau Gwir Flas y WDA yn 2005. Bydd Ultracomida yn agor bwyty newydd yn Aberystwyth ym mis Chwefror.

Edrych ymlaen at ddiod bach dros y Nadolig?

Beth am holi rhai o'n cyflenwyr lleol: -

- 'Celtic Wine' am ddewis da o wirodydd a gwinoedd ffrwythau, ffôn 01559 370105
- 'Ffynnon Las' am ddewis o winoedd gwyn, ffôn 01545 570234
- 'Fferm Fêl Cei Newydd' am Fedd Mêl arbennig, ffôn 01545 560822
- 'Toloja Orchards' sy'n gwneud seidir Cymreig, ffôn 01570 471295
- 'Penlon' sy'n gwneud gwahanol fathau o gwrw potel, ffôn 01545 580022

Er i ni wneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y cylchlythyr hwn a chyhoeddiadau eraill y prosiect yn gywir, ni all prosiect Gwasanaeth Cefnogi Cynhyrchwyr Ceredigion II na'i bartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wallau, hepgoriadau nac am unrhyw gamau a gymerir ar sail y wybodaeth sydd ynddynt. Nid ydym yn hyrwyddo nac yn dangos ffafriaeth at unrhyw gwmni bwyd na chrefftau y sonnir amdanynt yn y cylchlythyr. Ein nod yw cyhoeddi erthyglau sydd o ddiddordeb i'r darllenwyr. Mae croeso i chi anfon y cylchlythyr hwn at unrhyw un y gallai fod ganddynt ddiddordeb ynddo. Os hoffech ymuno â'n rhestr bostio, ffoniwch Anna Sadler ar 01239 710238.